



## **BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31ain Mawrth, 2015  
am 2.00yp yng Ngholeg Menai, Bangor**

### **PRESENNOL:**

Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Cyng. Dyfed Edwards, Arweinydd Cyngor Gwynedd  
Walis George, Grŵp Cynefin **(Cadeirydd)**  
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Iechyd  
Cyhoeddus  
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn  
Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru **(Is-Gadeirydd)**  
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru  
Dilwyn Owen Williams, Cyngor Gwynedd  
Emyr Williams, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Cyng. Ieuan Williams, Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn

### **Hefyd yn bresennol:**

Janet Roberts, Cyngor Gwynedd  
Anwen Davies, Cyngor Gwynedd  
Bethan Adams, Cyngor Gwynedd  
Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru  
Fflur Jones, Swyddfa Archwilio Cymru

## 1. YMDDIHEURIADAU

Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr /Iechyd Cyhoeddus  
John R. Jones, Medrwn Môn  
Ian Rees, Grŵp Llandrillo Menai  
Julian Sandham, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru  
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd  
Geraint George, Cyngor Gwynedd  
Bethan Jones, Cyngor Sir Ynys Môn.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 27 IONAWR, 2015

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2015 yn gofnod cywir o'r trafodaethau yn ddarostyngedig i ddiwygio'r pwynt bwled cyntaf o dan eitem 2 i ddarllen:

"Rhoddodd Sioned Rees, Llywodraeth Cymru gyflwyniad i'r Bwrdd trwy ddiweddariad ar lafar ar *Bapur Gwyn Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni - Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*".

## 3. CYFLWYNIAD I'R BWRDD – Awdit Swyddfa Archwilio Cymru

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd gan Andy Bruce, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ar ddarganfyddiadau archwiliadau a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2014 a Ionawr 2015. Pwysleisiodd bod yr adroddiad ar ffurf drafft yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth.

Nodwyd bod gweledigaeth newydd y Bartneriaeth efo blaenoriaethau clir a symlach a bod angen cynnal momentwm gweithrediadau diweddar. Tynnwyd sylw bod angen ail-alinio'r Cynllun Integredig Sengl (CIS) yn unol â'r blaenoriaethau.

Amlygwyd y canlynol fel cynigion ar gyfer gwella:

- Sicrhau bod cysondeb digonol yn y Bartneriaeth i gynnal a chefnogi trefniadau cydweithio, yn wyneb y tebygolrwydd y byddai newidiadau i aelodaeth weithredol y BGLI;
- Adolygu'r CIS i adlewyrchu prif flaenoriaethau newydd y BGLI;
- Darparu mynediad cyfredol wedi ei hyrwyddo'n glir i waith a chynnydd hyd yn hyn y BGLI ar y we.

Adroddwyd y byddai'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad drafft yn cael ei ddiweddarau ar ôl y cyfarfod. Nodwyd, er gwybodaeth, bod SAC yn bwriadu cynnal adolygiad cenedlaethol o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn ystod 2015/16.

Nodwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd y cyflwyniad:

- Bod y cyflwyniad yn rhoddi darlun clir a cywir o'r sefyllfa;
- Bod aelodau newydd angen cefnogaeth a dylid sicrhau eu bod yn cael eu hanwytho;
- Bod peryg dibynnu ar unigolion, angen i'r sefydliad berchnogi;

Nododd y Cadeirydd y byddai'n fodlon hwyluso anwytho aelodau newydd.

O ran yr amserlen, nododd Andy Bruce y byddai'r ddogfen ddrafft wedi ei chwblhau erbyn diwedd yr wythnos a byddai'n anfon y ddogfen at Uwch Reolwr Partneriaethau (Gwynedd ac Ynys Môn) i gylchredeg o gwmpas aelodau'r BGLI er mwyn iddynt ei adolygu a rhoi sylwadau. Ychwanegodd oherwydd y cyfnod PURDAH cyn yr etholiad ar 7 Mai y byddai oediad yng nghyhoeddi'r adroddiad terfynol.

Diolchodd y Cadeirydd am y cyflwyniad a nododd bod angen edrych ar sut i hyrwyddo'r prif ddarganfyddiadau.

#### **4. MATER BRYD - NEWIDIADAU I GEFNOGAETH Y BARTNERIAETH**

Aeth yr Uwch Reolwr Partneriaethau (Gwynedd ac Ynys Môn) allan o'r ystafell ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem.

Manylodd Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd ar y sefyllfa gan nodi bod secondiad yr Uwch Reolwr wedi dod i ben oherwydd materion rheolaethol a bod angen gwneud trefniadau i sicrhau cefnogaeth briodol i'r Bartneriaeth.

Mynegodd Richard Parry Jones, Cyngor Ynys Môn siomedigaeth bod y mater wedi ei benderfynu gan yr Awdurdod Lletyol heb ymgynghori efo'r partneriaid eraill. Nododd ei bryder y gall y newid yma fod yn gam yn nôl i'r Bartneriaeth yng ngoleuni adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau wneud sylwadau, nodwyd:

- Bod derbyn cadarnhad bod cyllid ar gyfer cefnogaeth i'r Bartneriaeth yn rhoi ychydig o sicrwydd;
- Angen sicrhau parhad mewn momentwm;
- Pwysigrwydd hwyluso a bod angen i'r gefnogaeth sydd ar ôl ddarparu hyn;
- Nododd aelod nad oedd y trafodaethau wedi bod yn ddigon agored a bod lle i wella o ran cyfathrebu;
- Bod angen gwybod yr effaith ar gapasiti'r Uned Bartneriaethau;
- Bod angen gwybodaeth yng nghyswllt y pwynt cyswllt newydd.

Nododd Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd oherwydd y sefyllfa ariannol a thorri gwasanaethau i drethdalwyr roedd angen edrych ar y swm o £350,000 a oedd yn y gyllideb ar gyfer gweinyddu'r Bartneriaeth. Awgrymodd y dylai cynrychiolwyr o'r Bwrdd fynychu cyfarfod o Grŵp Cefnogol sydd yn edrych ar oblygiadau/ystyriaethau o ran ariannu'r gefnogaeth.

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Bod Dawn Docx, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Sioned Rees, Llywodraeth Cymru yn cynrychioli'r Bwrdd ar y Grŵp Cefnogol ac yn adrodd yn ôl i'r aelodau cyn y cyfarfod nesaf;**
- **Cadarnhau pwynt cyswllt newydd yr Uned Bartneriaethau efo'r aelodau.**

## 5. BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL Y BGLI

Gofynnwyd i Arweinwyr BGLI ar gyfer y Blaenoriaethau Allweddol ddarparu diweddariad i'r Bwrdd ar gynnydd y timau prosiect wrth iddynt gytuno ar y cynigion lefel uchel.

### 5.1 Blaenoriaeth Allweddol 1 – Pobl Hŷn:

- *BA1 Pobl Hŷn* - nododd Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Iechyd Cyhoeddus y cynhaliwyd sesiynau thematig Vanguard - Pobl Hŷn ar 9-10 Mawrth 2015; gofal heb ei gynllunio/rhyddhau oedd y thema a rhoddwyd ystyriaeth i reoli galw, mapio llif a thrafod efo pobl hŷn.
- Nodwyd yr amlygwyd yn y sesiynau y rhwystrau o ran darparu gwasanaethau sef unigolion angen gofal iechyd parhaus, storfa offer canolog a phresgripsiwn.
- Ychwanegodd bod angen trafodaeth eang rhwng y partneriaid i sicrhau nad oes dyblygu yn y gwaith ataliol a'r gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus.
- Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:
  - bod angen osgoi dyblygu ffrydiau gwaith;
  - y dylid casglu potensial cyfraniad posib Pobl Hŷn a gallai Pobl Hŷn gael budd yn yr awyr agored mewn ardaloedd fel y Parc Cenedlaethol;
  - bod y gwaith yn mynd i'r cyfeiriad cywir.

### 5.2 Blaenoriaeth Allweddol 2 – Teuluoedd Camweithredol:

- *BA2 Teuluoedd Camweithredol* - Nododd Peter Newton y cynhaliwyd dau gyfarfod o'r Tîm Prosiect ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ynghyd â sesiwn thematig Vanguard ar 10-11 Mawrth 2015;
- Nodwyd yn dilyn pryderon o ran enw'r ffrwd gwaith argymhelliad y Tîm Prosiect oedd newid y teitl i 'Adeiladu Teuluoedd Cryfach' gan ei fod yn deitl mwy cadarnhaol;
- Yn ystod y drafodaeth ddilynol, nodwyd:
  - Sioned Rees yn fodlon hwyluso trafodaethau rhwng y Bartneriaeth a Llywodraeth Cymru yng nghyswllt dod a chynlluniau at ei gilydd;
  - y dylid ychwanegu "a mesur effaith y cynlluniau" ar ddiwedd argymhelliad A4.

### 5.3 Blaenoriaeth Allweddol 3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol:

- *BA3 Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol* – Nododd Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd bod ganddo bryder personol o lithro'n ôl a dylid canolbwyntio ar feysydd neu brosiectau allweddol sydd efo'r ardrawiad fwyaf;
- Adroddwyd bod gwaith yn mynd yn ei flaen i sefydlu os oedd rhywbeth ar goll o'r maes economi nad oedd yn cael ei gyfarch gan sefydliadau unigol neu'r Bwrdd Uchelgais Rhanbarthol. Ychwanegodd y byddai adroddiad yng nghyswllt y gwaith yma gerbron y cyfarfod nesaf.
- Nododd bod y Bil Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn golygu gorfod ail-linio'r CIS er mwyn gosod cyd-destun ar gyfer y dyfodol;

- Awgrymodd y dylid canolbwyntio ar y ffrydiau gwaith canlynol:
  - Cryfhau'r Defnydd o'r Iaith Gymraeg;
  - Datblygu Cymunedau Gwydn;
  - Yr Economi.
- Cafwyd trafodaeth yng nghyswllt y meysydd i ganolbwyntio arnynt.

#### **PENDERFYNWYD:**

- **BA1 Pobl Hŷn** – nodi bod y gwaith ar y trywydd iawn.
  - Cyflwyno manylion penodol y cynigion i'r cyfarfod ar 26 Mehefin 2015.
- **BA2 Teuluoedd Camweithredol** – cymeradwyo'r argymhellion isod i'w datblygu gan y Tîm Prosiect gan gyflwyno cynigion manwl i'r Bwrdd ym Mis Mehefin er cymeradwyaeth:

**A1 Datblygu cyd ddatganiad cenhadaeth ar gyfer y ffrwd gwaith gyda'r nod sylfaenol o adeiladu teuluoedd cryfach a thrwy hynny alluogi teuluoedd i gynnal eu hunain yn well.**

**A2 Yng ngoleuni arwyddocâd negyddol posibl y teitl Teuluoedd Camweithredol, y dylid newid teitl y ffrwd gwaith i 'Adeiladu Teuluoedd Cryfach'. Byddai datblygiad y cyd ddatganiad cenhadaeth yn sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar weledigaeth y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.**

**A3 Dylai'r ffrwd gwaith hon barhau i ganolbwyntio ar sicrhau ymyrraeth gynnar – a thrwy hynny atal problemau teuluoedd eraill rhag cynyddu.**

**A4 Er mwyn sicrhau nad yw'r ffrwd gwaith yn gôr gymhlethu camau gweithredu, cynnal ymarfer mapio gyda'r nod o adnabod bylchau, gwaith sy'n cael ei ddyblygu a symleiddio/gwella prosesau wrth symud ymlaen.**

**A5 Dylid ceisio trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru er mwyn cefnogi uchelgais y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a datblygu fframwaith deilliannau sydd yn fwy addas ar gyfer cynnal derbyniadau arian grant yng Ngwynedd a Môn.**

**A6 Mae angen cynnal adolygiadau achos amlasiantaeth tebyg ar draws Gwynedd a Môn fel ymarfer prif ffrwd bob chwe mis er mwyn adnabod cyfleoedd i ymyrryd wrth i ni symud ymlaen.**

**A7 Unwaith bydd y gwaith ar ddatganiad cenhadaeth ar y cyd wedi'i ddatblygu, cynigir y dylid creu tîm ardal amlasiantaeth peilot wedi'i leoli yn y gymuned – un yng Ngwynedd a'r llall ym Môn. Byddai hyn yn sicrhau dull seiliedig ar dystiolaeth o bennu gweithgaredd y dyfodol mewn perthynas ag adeiladu teuluoedd cryfach.**

- **BA3 – Cymunedau Cynaliadwy / Adfywio Cymunedol** - y dylid canolbwyntio ar y ffrydiau gwaith canlynol:
  - Cryfhau'r Defnydd o'r Iaith Gymraeg;
  - Datblygu Cymunedau Gwydn;
  - Yr Economi;
  - Cynllun Prentisiaeth;
  - Rhannu Asedau.
- **Cyflwyno manylion penodol y cynigion i'r cyfarfod ar 26 Mehefin 2015.**

## **6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL 2014/15 Y BGLI/CIS**

Cyflwynwyd – adroddiad yn rhoi ystyriaeth bellach ar yr angen i gynnal Adolygiad Blynyddol o'r BGLI a'i Gynllun Integredig Sengl. Amlygwyd y 3 egwyddor a oedd yn Sylfaen i'r Adolygiad Blynyddol, sef:

- Ymagwedd greadigol ond cymesur;
- Yn adlewyrchiad o uchelgais a chyfeiriad strategol arfaethedig y Bwrdd;
- Proses o adolygu ar y cyd – gyda'r nôd o gael ychydig o argymhellion ar gyfer y BGLI.

Manylwyd ar drefniadau hunan asesiad y Bwrdd, gan nodi y byddai holiadur byr yn cael ei anfon allan i aelodau'r Bwrdd yn ystod yr wythnosau nesaf gyda digwyddiad wedi'i hwyluso'n allanol yn ystod mis Mehefin.

Nodwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ddilynodd y cyflwyniad:

- Bod cynnal digwyddiad o'r fath yn bwysig ac yn amserol;
- Ei fod yn holl bwysig bod y meini prawf wedi eu gosod allan.

### **PENDERFYNWYD:**

- **Nodi bod y paratodau ar gyfer Adolygiad Blynyddol 2014/15 ar y trywydd cywir ac yn unol â'r amserlen hyd yma a bod angen gosod allan y meini prawf;**
- **Y dylid cynnwys hunanasesiad o weithrediad cyfredol y Bwrdd fel rhan o'r Adolygiad Blynyddol - gyda golwg ar arwain y gwaith datblygu a thyfu i'r dyfodol.**

## **7. FFRWD GWAITH CRAFFU BGLL AR Y CYD**

Cyflwynwyd – adroddiad ar gynnydd hyd yma wrth ddatblygu'r cyd drefniadau craffu arfaethedig fel sylfaen i waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Yn dilyn trafodaethau aelodau craffu Gwynedd ac Ynys Môn, gwnaed gwaith gan y Grŵp Tasg a Gorffen i baratoi manylion ar gyfer yr opsiwn a ffafriwyd sef - Opsiwn B: sefydlu panel craffu ar y cyd BGLL Gwynedd ac Ynys Môn. Nodwyd y byddai'r Grŵp yn rhoi ystyriaeth i drefniadau llywodraethu ac adrodd y Panel yn ogystal â pharatoi cynllun gwireddu ynghyd ag amserlen ar gyfer gweithredu. Gobeithir y byddai'r Panel Craffu yn dechrau ar ei waith ym mis Hydref.

Adroddwyd y byddai'r Ganolfan Graffu Cyhoeddus yn mentora a rhoi cymorth i aelodau'r Panel ac y gwelir yr angen i gynnal digwyddiad agoriadol ym Mehefin 2015 er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ffrwd gwaith craffu.

Nodwyd y prif bwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth ddilynodd y cyflwyniad:

- Pryder y comisiynir cynlluniau yng nghyfarfod 26 Mehefin tra nad yw'r Panel Craffu yn dechrau ar ei waith tan fis Hydref. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Partneriaethau (Gwynedd ac Ynys Môn) bod y Grŵp o'r farn bod angen buddsoddi amser yn aelodau'r Panel a mentora cyn cychwyn ar y gwaith;
- Bod angen i'r holl bartneriaid gwyntyllu'r trefniadau craffu;
- Yn debygol mai tasg gyntaf y Panel byddai craffu'r hyn a gomisiynwyd;
- Diolch am waith y Grŵp Tasg a Gorffen.

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Nodi'r cynnydd hyd yma wrth ddatblygu cyd drefniadau craffu fel sylfaen i waith y BGLI;**
- **Nodi'r rhagolygon ymarfer gorau a'r arwyddocâd cenedlaethol ynghlwm wrth ein ffrwd gwaith craffu lleol a chefnogi ymdrechion swyddogion i rannu'r dysgu'n genedlaethol fel yr esblygir y trefniadau.**

#### **8. BLAEN RAGLEN WAITH Y BGLL (2014/15 a 2015/16)**

Cyflwynwyd – adroddiad ar gadernid blaen raglen waith y BGLI ar gyfer 2015/16 yn dilyn camau cychwynnol a gymerwyd gan y Bwrdd dros y 9 mis diwethaf i weddnewid ei hunan. Nodwyd yr adolygwyd y Blaen Raglen Waith i adlewyrchu trafodaethau a phenderfyniadau gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod diwethaf (a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2015).

Tynnwyd sylw y byddai Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn mynychu cyfarfod o'r Bwrdd ym mis Rhagfyr i ymgysylltu â'r Bwrdd parthed Rhaglen Heneiddio'n Dda Cymru. Nodwyd y cynhelir sgwrs ffôn efo'r Comisiynydd er mwyn llawr werthfawrogi beth sydd ganddi o dan sylw. Gofynnodd Ffion Johnstone, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Iechyd Cyhoeddus iddi gael ei chynnwys yn y trafodaethau efo'r Comisiynydd.

#### **PENDERFYNWYD:**

- **Cymeradwyo'r Blaen Raglen Waith ddiwygiedig fel sylfaen i drafodaethau'r Bwrdd yn ystod 2015/16.**

#### **9. CERRIG MILLTIR ALLWEDDOL BIL LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Cyflwynwyd - adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar amserlen Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i oblygiadau i'r BGLI. Nododd Sioned Rees, Llywodraeth Cymru bod y Bil ar amserlen i dderbyn Cydsyniad Brenhinol yn fis Ebrill 2015, gyda chanllawiau yn cael eu llunio gyda'r bwriad o ymgynghori arnynt dros yr Haf.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau, nododd:

- Bwriedir i'r 3 haen ddod yn weithredol yn 2016 ond roedd Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gofyn am fwy o wybodaeth;
- Y byddai Panel yn cynnwys Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, Plant, Pobl Hŷn ac Iaith yn asesu'r blaenoriaethu lleol a benderfynir gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol;

- Y penderfynir ar flaenoriaethau lleol yn lleol, ond yr angen i sicrhau bod asesiad cadarn wedi ei gynnal er mwyn amddiffyn penderfyniadau.

**PENDERFYNWYD:**

- **Nodi oblygiadau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;**
- **Nodi'r cerrig milltir ynghlwm wrth y dyletswyddau newydd i'r Bwrdd gyda'r manylion yn bwynt cyfeirio fel y bydd y Bwrdd yn paratoi ar gyfer y dyfodol trwy ei raglen drawsnewid yn ystod 2015/16.**

**10. TRAFODAETH O GWMPAS Y BWRDD – CYNLLUNIAU ARIANNOL PARTNERIAID: 2015/16**

Gwahoddwyd y Bwrdd lechyd i rannu eu cynlluniau ariannol ar gyfer 2015/16. Nodwyd bod y Bwrdd lechyd wedi rhyddhau cyhoeddiad i'r wasg yn nodi bod cyllideb interim wedi ei gymeradwyo gyda diffyg ariannol net o £14.2 miliwn. Ychwanegwyd y bwriedir darganfod arbedion drwy:

- Reoli meddyginiaethau yn well;
- Bod yn fwy effeithlon a lleihau apwyntiadau sy'n cael eu canslo;
- Cadw cleifion mewn ysbytai am gyfnodau byrrach;
- Drwy ddefnyddio staff asiantaethau yn fwy effeithlon.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**11. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

**PENDERFYNWYD** nodi'r trefniadau a wnaed i gynnal cyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar 26 Mehefin, 2015 yn Ystafell Seminar, Coleg Menai, Bangor, Gwynedd.

**Eitemau Rhaglen:**

- **Ffrydiau Gwaith y 3 Blaenoriaeth Allweddol - cynigion fersiwn derfynol er cymeradwyaeth;**
- **Blaen Raglen Waith (2015/16) – er adolygiad;**
- **Adolygiad Blynyddol 2014/15 BGLI/CIS – adroddiad cynnydd**
- **Papur Gwyn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: partneriaethau/cydweithio – er ystyriaeth bellach;**
- **Trafodaeth o gwmpas y bwrdd: cynlluniau ariannol 2015/16 bob partner – cynnydd ar y gweithredu;**
- **Ffrwd gwaith Craffu BGLI ar y Cyd – er ystyriaeth bellach;**
- **Rhaglen Ddatblygu'r Bwrdd – er ystyriaeth bellach/adroddiad cynnydd;**
- **Cynllun Gweithredu Awdit SAC - er cymeradwyaeth;**
- **Strwythur a threfniadau llywodraethu'r BGLI – er ystyriaeth bellach;**
- **Ffrwd gwaith Cynlluniau Corfforaethol/Cynllun Llesiant – er ystyriaeth/cynnydd.**

Cymerwyd y cyfle i ddiolch i Richard Parry Jones, Peter Newton ac Anwen Davies am eu gwaith a dymunwyd yn dda iddynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.15yp